PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 13 CHWEFROR 2017

Present: County Councillor McGarry(Chairperson)
County Councillors Ahmed, Magill a/ac Sanders

57 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Joseph Carter, Chris Davis a Ralph Cook

58 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 o God Ymddygiad Aelodau i ddatgan ar gychwyn y cyfarfod p'un a oedd ganddynt fuddiant mewn unrhyw un o'r eitemau a restrwyd:

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Sanders | 3 | Aelod teuluol yn derbyn taliadau Uniongyrchol |
| | 3 | Cadeirydd Ymddiriedolwyr Banc Bwyd Caerdydd |
| Magill | 3b | Cyfrannu at rent Swyddfa'r Blaid Lafur yn Llangranog Road |

59 : CYNLLUN CORFFORAETHOL A CHYNIGION CYLLIDEBOL – I'W DDILYN

Rhoddodd yr eitem hon gyfle i'r Aelodau ystyried yr eitemau hynny a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol drafft a Chynigion Cyllidebol drafft a oedd yn rhan o gyfrifoldeb y Pwyllgor hwn. Byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan y Cabinet ar ddydd Iau 16 Chwefror 2017, cyn cael eu hystyried gan y Cyngor llawn ar 23 Chwefror 2017.

Trosolwg

Croesawodd y Pwyllgor y canlynol:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad.
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
- Allen Evens, Rheolwr Cyllid Gweithredol
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
- Gareth Newell, Partneriaethau a Ymgysylltiad Cymunedol.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y trosolwg o'r adroddiad crynhoi, a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:

- Y Setliad Terfynol
- Ymgynghori a Diweddariadau Ôl- Ymgynghoriad

- Y Gyllideb Refeniw Ddrafft
- Rhagolygon Tymor Canolig
- Rhaglen Gyfalaf Ddrafft

Siaradodd y Cynghorydd Hinchey am y broses ymgynghori fanwl a oedd wedi digwydd a'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd. Croesawyd y gwelliannau i wasanaethau rheng flaen a sefydlu agenda digideiddio i gefnogi gwasanaethau ar-lein i randdeiliaid.

Diolchodd y Cynghorydd Hinchey i'r Swyddogion am eu hamser a'u hymdrech i sicrhau bod y broses gyllidebol yn rhedeg yn esmwyth â'u gwaith a gredydwyd i liniaru'r effaith ar wasanaethau rheng flaen.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at broses gyllidebol 2012, yn benodol y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgynghori. Roedd y broses ymgynghori sefydledig bresennol yn werthfawr ac yn ymgysylltu pob rhan o'r gymuned. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth gan gymunedau a oedd yn swnio'n ansoddol; fodd bynnag, roedd yn hanfodol bod yr adborth hwn yn cael ei gyflwyno mewn arddull y gallai cymunedau berthnasu iddo, ac un a oedd yn ei wneud yn glir mai ansoddol oedd, yn hytrach nag adborth ystadegol gadarn. Roedd mesur cynnydd yn hanfodol er mwyn i ddatblygiadau wella ymgysylltu cymunedol.

Tynnodd y Cynghorydd Hinchey sylw at y broses ymgynghori. Roedd ymgysylltu yn cynyddu - roedd hwn yn cynnwys y nifer o bobl a oedd yn ymwybodol o sut mae proses y Cyngor yn gweithredu. Cydnabuwyd bod angen mwy o waith i gynnwys grwpiau anoddach eu cyrraedd a chynyddu nifer y bobl sy'n rhan o'r broses ar gyfer y dyfodol.

Hysbyswyd y Pwyllgor o gynnwys y Dangosyddion Perfformiad pellach a amlinellir yn yr Atodiad i'r adroddiad. Y DP hyn yw’r gyrwyr allweddol ar gyfer newid a datblygu, gydag amcanion yn cael eu gosod i sicrhau y bodlonir y targedau perthnasol. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r hierarchaeth o gynlluniau i wireddu gweledigaeth y Cyngor.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyngor yn yr un sefyllfa â'r llynedd o ran y cronfeydd wrth gefn o £1.5 miliwn. Roedd y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol o £14.5m i aros, gyda chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £36m yn cael eu defnyddio at ddibenion penodol.

Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i Aelodau'r Pwyllgor am strwythur y Cyfrif Refeniw Tai. Roedd y cyfrif hwn yn sefyll ar wahân ac roedd wedi’i neilltuo. Gwnaed cymariaethau yn erbyn sefyllfa'r flwyddyn nesaf, gan gynnwys cynnydd o 18% mewn gwariant a'r paratoadau sydd yn eu lle i gefnogi'r gyllideb yn y dyfodol. Roedd dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod benthyca yn ddarbodus, ac ar hyn o bryd roedd ei safle’n fforddiadwy.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyfraniad.

<u>Y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd Portffolio Datblygu Economaidd a Phartneriaethau’r Cyngor</u>

Croesawodd y Cadeirydd:

Y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd y Cyngor
Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid
Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai.

Datganodd y Cynghorydd Bale fuddiant personol mewn perthynas â Swyddfa’r Blaid Lafur yn Llangranog Road, Llanisien.

Amlinellodd yr Arweinydd sefyllfa'r gyllideb, gan dynnu sylw at Ganolfan Maelfa, y gwaith galluogi ar gyfer adfywio Canolfan Maelfa, a chyfraniad y Cyngor tuag at ddatblygu cynllun canolfan siopa leol hyfyw.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i wybod p’un a yw'r busnesau presennol yn croesawu'r cynigion newydd.

Sicrhaodd y Cynghorydd Bale y Pwyllgor fod siopwyr lleol yn awyddus i ail-leoli yng Nghanolfan Maelfa. Roedd hon yn fenter Buddsoddi i Arbed gyda dychweliadau, ac roedd cymhelliant i fusnesau ailsefydlu yn y ganolfan.

Roedd Adfywio Canolfannau Siopa Cymunedol yn mynd rhagddo ar draws y ddinas, ond mewn rhai ardaloedd cydnabuwyd bod rhai problemau’n bodoli. Roedd Menter Busnes Butetown yn rhan o'r rhaglen ac roeddent yn profi rhai problemau technegol. Roedd yn rhaid i gynllun penodol fod wedi ei ddynodi fel un cyflenwadadwy cyn i'r gwelliannau ddigwydd. Roedd y Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â’r ardaloedd siopa hyn, gydag asesiad o ddefnydd a statws yn y dyfodol yn cael ei wneud i wella cymunedau lleol.

<u>Y Cynghorydd Peter Bradbury, Datblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Menter Gymdeithasol</u>

Dywedodd y Cynghorydd Bradbury wrth y Pwyllgor y byddai'r Cyngor yn parhau i gyflwyno'r rhaglen datblygu Hybiau Cymunedol. Byddai ail-broffilio Partneriaethau Cymdogaethau hefyd yn parhau i sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda dinasyddion a phartneriaid i ymdrin ag angen ar sail ardal. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion pellach ynglŷn â’r dull newydd o ymdrin â chyflenwad gwasanaethau ardal a chymdogaeth.

Eglurodd y Cynghorydd Bradbury fod newidiadau i'r fiwrocratiaeth wedi arwain at ddull newydd diffinedig, gan gynnwys llai o gyfarfodydd. Roedd yn hanfodol i’r chwe ardal glwstwr weithio'n briodol, a byddai ymdrin â’r hyn sy'n gweithio’n lleol yn sicrhau dull cadarn, ac yn ail-symbylu.

Roedd biwrocratiaeth y strwythur cyfarfodydd wedi datgysylltu’r partneriaethau ac o bosibl wedi eu gwneud yn amhoblogaidd. Dylai gwaith ardal fod ar du blaen meddwl y partneriaethau gyda'r mecanwaith yn canolbwyntio ar weithredu cymunedol, a sioeau teithiol lleol blynyddol. Roedd yr holl bartneriaid wedi ymrwymo i’r dull hwn, a nodwyd arbedion drwy ailstrwythuro staffio a gostyngiad mewn gwariant yn y gymdogaeth o £60k i £40k. Cafodd y lleihad yn y cyllid penodol ei adrodd i'r holl bartneriaid a'i gynnwys yn y broses ymgynghori ynghylch y gyllideb. Bellach, roedd

mecanweithiau yn eu lle i ymgysylltu â chymunedau a symud tuag at ddull gweithio seiliedig ar ardal mwy llyfn.

Roedd yr Aelodau'n pryderu y gallai atebolrwydd gael ei golli yn y cynigion newydd, gyda thargedau a chanlyniadau yn cael eu methu. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd na fyddai'r mesurau hyn yn cael eu colli ar lefel y gymdogaeth.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai ymrwymiad yn ei le i beidio â cholli'r arfer da a ddysgwyd hyd yn hyn, a byddai'r eitem hon yn cael ei dwyn yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion am ddiweddariad yn y dyfodol. Roedd y dull newydd yn cael ei sefydlu i ennyn diddordeb a chyfranogiad pellach.
Cydnabu Aelodau'r Pwyllgor lwyddiant y rhaglen Hybiau ar draws y ddinas, a sut yr oedd hyn yn cysylltu i mewn ac yn cefnogi darpariaeth y Gymdogaeth. Dylai rhaglen ymgynghori eang fod yn ei lle ar gyfer y dull newydd o gyflenwi gwasanaethau i ardaloedd a chymdogaethau, a dylai hyn hefyd gysylltu â darpariaethau addysgol.

Eglurodd y Cynghorydd Bradbury fod y model ar gyfer llyfrgelloedd yn cysylltu â'r strategaeth hybiau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ysgolion cymunedol sy'n darparu clybiau a gwasanaethau ar ôl ysgol, er mwyn mwyhau'r defnydd ar lefel leol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at Fasnacheiddio, cyfleoedd incwm ychwanegol, gan gynnwys incwm a gynhyrchir gan yr Hybiau.

<u>Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod Cabinet Iechyd, Tai a Llesiant.</u>

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai Tai yn cael eu trafod gyntaf cyn yr eitem ar Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion.

Tynnodd y Cynghorydd Elsmore sylw at yr ymrwymiadau sydd yn eu lle:

- I weithredu Strategaeth Dai Caerdydd 2016-2021 i sicrhau bod y rhai sydd mewn angen yn cael mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel priodol.
- Hyrwyddo cynnydd mewn oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cyswllt Cyntaf;
- Datblygu ymhellach y Ganolfan Derbyn Larymau
- Datblygu Gweithio'n Seiliedig ar Ardal

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r materion ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Croesawodd yr aelodau'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, gyda mwy o dargedau'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn symleiddio'r wybodaeth. Mynegodd yr Aelodau bryderon y gallai mesur targedau cynnydd fod yn hawdd i'w gamddehongli, a bod angen gwybodaeth gyd-destunol, e.e. noda'r Cynllun Corfforaethol presennol yr union ffigwr mewn perthynas â rhai sy'n cysgu ar y stryd sydd wedi cael eu helpu, ond nid oes unrhyw wybodaeth i osod hyn mewn cyd-destun, er enghraifft, y nifer hysbys o bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Hysbyswyd yr Aelodau am ddatblygiad Gwaith yn Seiliedig ar Ardal i integreiddio'n effeithiol y gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn o fewn lleoliad daearyddol, gan

ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person, lleihau dyblygu, a gwella ymgysylltu â dinasyddion. Rhoddir ffocws ar anghenion y cleient, gan osgoi teithio dinas i’r darparwyr er mwyn cefnogi a datblygu model sy'n seiliedig ar ardal.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gynlluniau Adfywio Tai sy’n digwydd ar draws y ddinas ac ansawdd yr ymatebion a gafwyd gan denantiaid. Roedd hwn yn gyfle anffurfiol i denantiaid gymryd rhan yn y rhaglen, ac roeddent yn gyfforddus wrth wneud hynny.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor, yn dilyn cyflwyno'r Strategaeth Digartrefedd newydd, fod y bylchau yn y mesurau wedi cael eu nodi, ac y byddai'r targedau allweddol yn cael eu cynnwys yn y Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth.

Eglurodd y Cynghorydd Elsmore fod dull rheoli achos yn cael ei ddefnyddio i gefnogi’r rhai sy'n cysgu ar y stryd. Nodwyd hanesion o lwyddiant, a blaenoriaeth y Cyngor oedd lleihau nifer y bobl sy'n byw ar y stryd.

Teimlai rhai Aelodau mai esboniad cyfyngedig oedd gan y Cynllun Corfforaethol o'r cyfeiriad teithio, ac y gellid ei weld fel dogfen annibynnol, heb gael ei hadnewyddu’n rheolaidd. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth gyd-destunol.

Eglurodd y swyddogion wrth y Pwyllgor bod y Cynllun Corfforaethol yn dal yr uchafbwyntiau, themâu a mesurau allweddol. Byddai manylion cyfeiriad teithio amcanion penodol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad blynyddol. Y bwriad oedd byrhau'r ddogfen a’i ffocysu ar dasgau yn hytrach na’i bod yn ddisgrifiadol.

Tynnodd y Swyddogion sylw at y sefyllfa gyllido bresennol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Thai a Llety Dros Dro. O fis Ebrill 2017 ymlaen, byddai Caerdydd yn cael llai o arian gan Lywodraeth Cymru gan fod y fformiwla wedi newid. Darparwyd arian ychwanegol i gefnogi'r Rhaglen Digartref, ond roedd colled o £300k yn dal i gael ei gwireddu.

<u>Tynnodd y Pwyllgor sylw at Gynigion Arbedion.</u>

Gofynnodd yr Aelodau am fanylion pellach am yr Adolygiad Grantiau. Mewn ymateb, eglurodd y swyddogion ei fod o gyflenwad mamolaeth interim Cymorth i Fenywod Caerdydd ac nad oes unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth yn dod i ben o ganlyniad i'r arbediad hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am ailgodi tâl cyfleustodau yn Rover Way & Shirenewton.

Dywedodd y swyddogion na allai cyfleustodau mewn rhai safleoedd gael eu dyrannu ar hyn o bryd i leiniau gwirioneddol. Feli rhan o hyn, byddai angen gosod mesuryddion dŵr a mesuryddion trydan unigol, er mwyn galluogi codi tâl am y defnydd yn uniongyrchol ar y defnyddiwr.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor pam fod 'darparu gwasanaethau cyllidebu a chynyddu incwm ar gyfer y dinasyddion mwyaf agored i niwed' wedi ei nodi fel risg coch. Mewn ymateb eglurodd y swyddogion fod hyn o ganlyniad i’r cap budd-daliadau Diwygio Lles mewn perthynas â thalu ôl-ddyledion rhent.

<u>Goblygiadau’r Gyllideb i Weithwyr</u>

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor pa effaith fyddai'r dull newydd o Gyflenwi Gwasanaethau Ardal a Chymdogaeth yn ei chael ar staff. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddogion fod y ffigurau yn ymwneud â'r ailstrwythuro arfaethedig, er mwyn cwrdd â chyflenwi gwasanaeth yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor y Cynllun Gwariant a'r trafodaethau sydd yn eu lle gyda phartneriaid. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddogion fod hon yn broses barhaus gyda chyfarfodydd yn eu lle gyda'r darparwyr newydd i ymdrin â'r gwasanaethau.

Ffioedd a Thaliadau

Roedd y Pwyllgor yn falch o weld nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i gyfeirio at daliadau Pryd ar Glud.

Croesawodd y Pwyllgor Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol i'r cyfarfod i ymdrin â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Diolchodd y Cynghorydd Elsmore i'r Swyddogion am y gwaith a wnaed ar y broses gyllidebol. Roedd cyflawniadau yn cael eu cydnabod o ran darparu gwasanaethau a gwell effeithlonrwydd ar draws yr adran.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad, a oedd yn amlinellu manylion yn y Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18.

Cyfeiriodd aelodau'r Pwyllgor at yr Ymrwymiad i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Ystyriol o Demensia erbyn mis Mawrth 2018, a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol, a gofynnwyd sut y byddai hyn yn cael ei ddatblygu yn awr bod Partneriaethau Cymdogaeth yn cael eu hailstrwythuro, o ystyried eu bod wedi arwain ar y gwaith hwn hyd yma.

Dywedodd y swyddogion wrth y Pwyllgor bod Cynllun Dinas sy'n Ystyriol o Demensia yn cael ei gwblhau, ac y byddai'n eistedd uwchlaw y chwe chynllun Partneriaethau Cymdogaeth presennol, gan roi darlun o weithgareddau ar draws y ddinas.

Croesawodd y Pwyllgor y newid i'r cynlluniau a gofynnwyd os oes Dangosfwrdd yn eistedd o dan y 6 chynllun. Mewn ymateb, cadarnhaodd y swyddogion bod Dangosfyrddau yn eistedd o dan y cynlluniau, a oedd ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau ar draws y ddinas gyfan. Byddai'r cynlluniau hyn yn dwyn ynghyd cyflenwad arfaethedig chwe chymdogaeth ar statws Dinas sy'n Ystyriol o Demensia.

Roedd yr aelodau'n awyddus i glywed am weithredu'r Cyfleoedd Dydd newydd erbyn Mawrth 2018. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Elsmore fod yr holl ganolfannau dydd wedi eu gwerthuso 2-3 blynedd yn ôl. Cwblhawyd Canolfan y Tyllgoed ym mis Ionawr 2017, a oedd yn cynnwys strwythur gweithgareddau ychwanegol, gan arwain at welliannau sylweddol i staff a chleientiaid.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu nad oedd targedau wedi'u gosod ar gyfer y gostyngiad i Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddogion y byddai'r ffigwr yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Cynigion Arbedion

Gofynnodd y Pwyllgor pam fod yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Llety Brys ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau Anabledd Dysgu gyda gradd CAG o Goch/ Ambr.  Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog fod y statws CAG yn ganlyniad i’r problemau a gafwyd wrth weithredu.  Roedd hwn wedi dilyn yr Asesiad Corfforaethol o'r EIA, gan arwain at nodi rhai heriau.

Trafododd y Pwyllgor yr Adolygiad o Adnoddau Gwaith Cymdeithasol Mewn Ysbytai, a'r effaith y gallai'r cynnig o fodelau amgen ei chael ar y gwasanaeth.

Hysbyswyd Aelodau’r Pwyllgor o’r ailstrwythuro posibl o gynorthwywyr gwaith cymdeithasol i gefnogi adnoddau mewn ysbytai.  Byddai hyn hefyd yn cael ei seilio ar yr adnoddau cyfredol sydd yn eu lle, a sut y cawsant eu defnyddio.

Hysbyswyd y Pwyllgor o adolygiad o'r model cyflenwi gofal cartref.  Sefydlwyd tîm i gefnogi'r newidiadau hyn a byddai arbedion o 7% yn cael eu gwireddu.   Roedd gweithio ochr yn ochr â darparwyr gofal yn hanfodol i edrych ar ystod o faterion a modelau gwasanaeth a oedd yn effeithio ar ddarparu gofal.

Y Cynghorydd De’Ath, Aelod Cabinet dros Ddiogelwch, Ymgysylltu a Sgiliau.

- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid s
- Dave Holland, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio Rhanbarthol

Darparodd y Cynghorydd De’Ath ddatganiad.

Roedd ailgomisiynu Gwasanaethau Trais yn y Cartref yn ei le, gyda Siop 1 Stop wedi ei sefydlu i gefnogi Cam-drin Domestig. Roedd y Cymorth Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn nodi a gwneud arbedion. Roedd cyfalaf ychwanegol yn cael ei wneud ar gael i Osod Gatiau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd unrhyw dargedau yn eu lle i fesur cynnydd yn y Gwasanaethau Cymorth Trais yn y Cartref. Mewn ymateb, cadarnhaodd y swyddogion fod mesurau yn y Cynlluniau Gwasanaeth.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu nad oedd yr Ymrwymiad i 'Sicrhau bod Gwasanaethau Cymorth Trais yn y Cartref yn bodloni gofynion deddfwriaeth newydd, gan gynnwys ailgomisiynu'r gwasanaeth'  wedi ei gynnwys yn y Mesurau.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod y rhaglen ailgomisiynu ar hyn o bryd yn ei lle i yrru'r Bartneriaeth Trais yn y Cartref yn ei blaen.  Sefydlwyd mesurau i fesur ymwybyddiaeth ar gyfer staff, ac amlinellwyd y rhain yn y Cynllun Gwasanaeth 2017/18.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod yr arbedion a briodolir i’r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn gyflenwadadwy, o ystyried yr arbedion hyd yma. Dywedodd y swyddogion bod yr arbedion yn rhan o gynllun 3 blynedd, a’u bod yn dod o welliannau yn y defnydd o becynnau TGCh a lleihad mewn costau milltiroedd.

PENDERFYNWYD:  CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet a’r Swyddogion perthnasol i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, a chyfleu eu sylwadau ar ran y Pwyllgor.

60 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

8 Mawrth 2017

***This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg***